

A man with a dark beard and a blue textured sweater is shown from the chest up, leaning over a large wooden cutting board. He is sprinkling white seasoning (likely salt) onto a piece of cooked meat, possibly lamb chops, which are resting on the board. The background is a blurred outdoor scene with green hills and a cloudy sky. In the top left corner, there is a teal square containing the white text 'S4C'.

S4C

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Blwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2020
Cyhoeddwyd Awst 2020

Welsh Language Standards Annual Report

Financial year to 31 March 2020
Published August 2020

CYFLWYNIAD

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau o ran y Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016).

Mae dyletswydd ar S4C i gydymffurfio gyda safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Yn deillio o hyn, mae gan S4C ddyletswydd sy'n golygu na ddylai drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Bwriad y safonau yw:

- ei gwneud yn eglur beth yw dyletswyddau sefydliadau o ran y Gymraeg;
- ei gwneud yn fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallent ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg, a
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

Mae Hysbysiad Cydymffurfio S4C a manylion y safonau sy'n berthnasol iddi ar wefan S4C. Nid yw'r safonau yn cwmpasu pob agwedd o swyddogaethau S4C; mae darlledu wedi ei eithrio o gwmpas y safonau felly nid oes disgwyl i S4C gydymffurfio â safon os yw'r safon honno, ac i'r graddau y mae'r safon honno, yn ymwneud â darlledu.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adrodd ar y flwyddyn ariannol 2019-20 yn unol â gofynion y safonau.

INTRODUCTION

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 established a legal framework to impose duties on certain organisations to comply with Welsh language standards through subordinate legislation (the Welsh Language Standards Regulations (No 2) 2016).

S4C has a duty to comply with standards in relation to the Welsh language. As a result, S4C has a duty which means that it should not treat the Welsh language less favourably than the English language in Wales. The standards are intended to:

- make clear the duties of organisations in relation to the Welsh language;
- make clearer for Welsh speakers which services they could expect to receive in Welsh, and
- ensure greater consistency in Welsh language services and improve their quality.

S4C's Notice of Compliance and details of the standards that apply to it are available on the S4C website. The standards do not cover all aspects of the functions of S4C; broadcasting is excluded from the scope of the standards, so S4C is not expected to comply with a standard if, and to the extent that, the standard relates to broadcasting.

This annual report reports on the 2019-20 financial year in accordance with the requirements of the standards.



S4C
Fel yr unig wasanaeth teledu Cymraeg, mae'r iaith yn greiddiol i fodolaeth S4C ac yn ganolbwynt allweddol i holl ddarpariaeth S4C. Mae S4C wedi ymrwmo i gefnogi defnydd a datblygiad yr iaith Gymraeg i sicrhau dyfodol y Gymraeg fel iaith hyfyw. Ers 1982 rydym yn darparu ystod eang o gynnwys yn yr iaith Gymraeg sydd yn adlewyrchu Cymru ac sydd yn berthnasol i'n gwylwyr.

Rydym wedi arloesi ar lwyfannau newydd i gynnwys y Gymraeg, ac yn benodol ar lwyfannau digidol. Cyrhaeddodd ein gwasanaeth i bobl ifanc, **Hansh**, garreg filltir anhygoel ym mis Mawrth 2020 gan denu miliwn o sesiynau gwyllo ar draws Twitter, Facebook ac YouTube am y tro cyntaf erioed. Ers lansio Hansh ym Mehefin 2017, mae'r gwasanaeth wedi datblygu yn aruthrol i gynnig cynnwys ar amryw o lwyfannau sydd bellach yn cynnwys Instagram a Tik Tok yn ogystal â gwasanaeth podlediadau. Yn ychwanegol i ddeunydd comedi, mae Hansh bellach wedi cynhyrchu rhaglenni dogfen a gwasanaeth newyddion a materion cyfoes i bobl ifanc dan y brand, **Hansh Dim Sbin**. Mae Hansh yn rhoi cyfle i glywed a mwynhau'r Gymraeg mewn ffordd unigryw ac arloesol.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, denodd ein chwaraewr **S4C Clic** 100,000 o danysgrifwyr a hynny mewn ychydig dros chwe mis. Mae datblygu gwasanaeth tanysgrifio S4C wedi ein galluogi i gyfathrebu un wrth un â gwylwyr ac o ganlyniad, rydym yn dod i ddeall anghenion gwylwyr yn well a chynnig gwasanaeth mwy cyflawn. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn ychwanegu at arlwy Clic yn gyson, gan gynnig lluo o wasanaethau gwahanol megis bocs sets a sianelau arbennig ar gyfer dysgwyr, Hansh a llawer mwy.

Mewn ymgais i arddangos Cymru a'r Gymraeg ar blatfform byd-eang, lansiwyd y brand newydd S4C

Originals – dramâu a fformat gwreiddiol S4C yn hydref 2019. Mae'r brand yma yn cynnwys rhaglenni megis **Un Bore Mercher**, **Bang**, **Priodas Pum Mil** a **Bwyd Epic Chris** i enwi ond rhai. Mae lansio S4C Originals yn ein galluogi i gyflwyno cynnwys gwreiddiol safonol iawn o Gymru i gynulleidfaoedd rhyngwladol newydd ac i ymestyn cyrhaeddiad yr iaith Gymraeg ledled y byd.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth strategol gyda'r **Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol** (Y Ganolfan.) Yn ystod y cyfnod dan sylw rydym wedi creu llwyfan arbennig ar gyfer dysgwyr ar ein chwaraewr S4C Clic. Mae'r gwasanaeth yma yn cynnwys rhaglenni S4C sydd yn addas ar gyfer dysgwyr – yn gynnwys newydd ac archif - ac yn traws hyrwyddo gwefan Y Ganolfan i gynnig cefnogaeth bellach. Yn ogystal â hyn, mae'r Ganolfan wedi creu gwersi cyfredol i'w dysgwyr yn seiliedig ar raglenni S4C er enghraifft **Bang**. Rydym yn falch iawn bod ein rhaglenni yn cael eu gweld fel adnodd gwerthfawr i'r rheiny sydd yn dysgu Cymraeg. Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd gwasanaeth ffurf-fer yn cynnig cynnwys cyfoes i ddysgwyr yn rheolaidd. Mae dros 270,000 o sesiynau gwyllo wedi bod hyd yma. Datblygwyd podlediadau ar gyfer dysgwyr am y tro cyntaf hefyd.

Prosiect arall i gefnogi'r iaith ac i annog dysgwyr yw'r gyfres **Iaith ar Daith**. Darlledwyd hon o fis Ebrill 2020, ond bu'r pum seleb a'u mentoriaid yn dysgu Cymraeg a chreu bwrllwm o gwmpas y gyfres yn y misoedd blaenorol. Cafodd clip fideo o Carol Vorderman yn darogan y tywydd yn Gymraeg argraff fawr iawn ar ein cyfryngau cymdeithasol, gyda dros 600,00 o sesiynau gwyllo fis Chwefror 2020. Braf oedd gweld sylwadau o anogaeth a chymeradwyaeth am ddysgu Cymraeg o ganlyniad.

S4C
As the only Welsh language television service, the language is central to the existence of S4C and is at the core of S4C's provision. S4C is committed to supporting the use and development of the Welsh language to ensure the future of Welsh as a viable language. Since 1982 we have provided a wide range of content in the Welsh language that reflects Wales and is relevant to our viewers.

We have pioneered the use of the Welsh language on new platforms, specifically on digital platforms. Our service for young people, **Hansh**, reached a tremendous milestone in March 2020, attracting a million viewing sessions across Twitter, Facebook and YouTube for the first time ever. Since the launch of Hansh in June 2017, the service has developed massively to offer content on various platforms that now include Instagram and Tik Tok as well as a podcast service. In addition to comedy material, Hansh has now produced documentaries and a news and current affairs service for young people under the **Hansh Dim Sbin** brand. Hansh provides an opportunity to hear and enjoy the Welsh language in a unique and innovative way.

During the year under review, our **S4C Clic** player attracted 100,000 subscribers in just over six months. The development of an S4C subscription service has enabled us to communicate one to one with viewers and as a result, we are gaining a better understanding of viewers' needs and are able to offer a more complete service. During the year, we have been regularly adding content to Clic, offering a multitude of different services such as box sets and special channels for learners, Hansh and much more.

To showcase Wales and the Welsh language on a global platform, the new brand, S4C Originals, was launched in the autumn of 2019. This drama and original format

brand includes programmes such as **Un Bore Mercher** (Keeping Faith), **Bang**, **Priodas Pum Mil** (Five Thousand Pound Wedding) and **Bwyd Epic Chris** to name but a few. The launch of S4C Originals enables us to introduce high-quality, original content from Wales to new international audiences and to extend the reach of the Welsh language across the globe.

We continue to work in a strategic partnership with the **National Centre for Learning Welsh** (The Centre.) During the period under review we have created a special platform for learners on our S4C Clic player. This service includes S4C programmes suitable for learners - new and archive content - and cross-promotion of the Centre's website to offer further support. In addition, the Centre has produced new lessons for its learners based on S4C programmes such as **Bang**. We are very pleased that our programmes are seen as a valuable resource for those learning Welsh. During the year, a short-form service was launched to offer up-to-date content for learners on a regular basis. There have been over 270,000 viewing sessions to date. Podcasts for learners were also developed for the first time.

Another project to support the language and encourage learners is the series **Iaith ar Daith**. This was broadcast from April 2020, but the five celebrities and their mentors had been learning Welsh and creating a buzz around the series in the previous months. A video clip of Carol Vorderman forecasting the weather in Welsh made a very big impression on our social media, with over 600,000 viewing sessions in February 2020. It was pleasing to see comments of encouragement and appreciation for learning Welsh as a result.



S4C YN FEWNOL GWEITHREDU AR Y SAFONAU
Mae S4C yn cydymffurfio gyda’r safonau sydd wedi eu gosod arni ac wedi parhau i’w gweithredu yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn parhau i gadw copi o’r safonau sydd yn berthnasol inni yn y swyddfeydd sy’n agored i’r cyhoedd, ar ein gwefan ac ar ein mewnwrwyd ble mae adran benodol i staff gael manylion am y safonau a’u gofynion. Mae gan S4C bolisi ar ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle, sy’n cefnogi defnyddio’r iaith wrth ohebu, a chyfathrebu yn ddyddiol. Mae’r polisi hwn hefyd ar ein mewnwrwyd.

Mae llofnod e-bost pob aelod o staff yn nodi lefel eu rhuglder yn y Gymraeg ac yn egluro y gellir gohebu gyda nhw yn y Gymraeg. Mi fyddai rhywun sy’n gohebu â ni yn y Gymraeg yn derbyn ateb yn y Gymraeg ac ni fydd oedi oherwydd hynny. Mae hyn hefyd yn wir am gysylltu â phobl drwy’r cyfryngau cymdeithasol.

CYDYMFFURFIAETH – SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU
Mae S4C yn cydymffurfio gyda’r safonau cyflenwi gwasanaethau. Yn ystod y cyfnod dan sylw mae S4C wedi parhau i weithredu y safonau ac i roi ystyriaeth flaenllaw i’r Gymraeg wrth ddarparu ei gwasanaethau i’r cyhoedd.

Mae pob aelod o staff sy’n gweithio mewn rolau sy’n wynebu’r cyhoedd - yn y dderbynfa neu yn ein swyddfa llinell gymorth (Gwifren Gwylwyr), a hefyd ein staff sy’n gweithio i S4C yn uniongyrchol yn ein digwyddiadau yn ystod yr haf - yn gwbl ddwyieithog.

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniodd S4C gwyn oedd yn berthnasol i’r safonau darparu gwasanaethau.

CYDYMFFURFIAETH – SAFONAU LLUNIO POLISI
Mae’r Gymraeg yn rhan bwysig o ethos a bodolaeth S4C ac yn ystyriaeth wrth inni lunio ein polisiâu. Pan fyddwn yn llunio polisi newydd, neu’n adolygu neu’n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, byddwn yn ystyried sgil effeithiau hynny ar y cyfleoedd i bobl, ac yn enwedig ein staff, i ddefnyddio’r Gymraeg, lle’n berthnasol. Rydym wedi parhau i weithredu hyn yn ystod y flwyddyn. O ran mabwysiadu a chymeradwyo polisiâu, mae taflen benodol sydd yn nodi gofynion y safonau wrth lunio polisi ynghlwm wrth y papurau a aiff gerbron Bwrdd Unedol S4C am gymeradwyaeth.

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniodd S4C unrhyw gwynion am gydymffurfiaeth S4C gyda’r safonau llunio polisi.

CYDYMFFURFIAETH – SAFONAU GWEITHREDU
Mae S4C wedi parhau i weithredu ei dyletswyddau yn y maes yma.

Roeddem yn cynnal ein cyfarfodydd staff yn ddwyieithog gyda’r opsiwn o gyfieithu ar y pryd eisoes ac wedi rhannu’r arfer gorau yma gyda sefydliadau eraill. Wrth i staff weithio o gartref ac i gyfarfodydd ddod yn rhithiol, rydym wedi symud ein darpariaeth ar lwyfan Zoom er mwyn gallu parhau i gynnig cyfieithu ar y pryd i’r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae cyfieithydd yn ymuno gyda’r cyfarfod a’r rhai sydd yn dymuno cael cyfieithiad i’r Saesneg wedyn yn dewis clywed ffrwd arall.

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniodd S4C unrhyw gwynion am gydymffurfiaeth S4C gyda’r safonau gweithredu.

S4C INTERNALLY IMPLEMENTING THE STANDARDS
S4C complies with the standards imposed upon it and has continued to implement them during the year.

We continue to keep a copy of the standards that apply to us in the offices that are open to the public, on our website and on our intranet where there is a dedicated section where staff can view details of the standards and their requirements. S4C has a policy on the use of Welsh in the workplace, which supports the use of the language in correspondence and communication daily. This policy is also on our intranet.

The email signature of each member of staff indicates their level of fluency in Welsh and explains that they can be corresponded with in Welsh. Someone who corresponds with us in Welsh would receive a reply in Welsh and there is no delay as a result of this. This is also true of engaging with people through social media.

COMPLIANCE – SERVICE DELIVERY STANDARDS
S4C complies with service delivery standards. During the period under review, S4C has continued to implement the standards and has ensured that the Welsh language is given prominent consideration whilst providing its services to the public.

All staff members working in public-facing roles - in the reception area or in our helpline office (Gwifren Gwylwyr / Viewers’ Hotline), and our staff who work for S4C directly in our summer events - are fully bilingual.

During the reporting period, S4C did not receive any complaints that were relevant to the service delivery standards.

COMPLIANCE – POLICY MAKING STANDARDS
The Welsh language is an important part of the ethos and existence of S4C and a consideration in formulating our policies. When we are formulating a new policy, or reviewing or modifying an existing policy, we will consider the knock-on effects on the opportunities for people, and particularly our staff, to use the Welsh language, where relevant. We have continued to implement this during the year. In relation to the adoption and approval of policies, a cover sheet setting out the requirements of the policy making standards is attached to the papers that are submitted to S4C’s Unitary Board for approval.

During the reporting period, S4C received no complaints regarding S4C’s compliance with the policy making standards.

COMPLIANCE – OPERATIONAL STANDARDS
S4C has continued to implement its duties in this respect.

We already held our staff meetings bilingually with the option of simultaneous interpretation and have shared this best practice with other organisations. As staff work from home and meetings become virtual, we have moved our provision to the Zoom platform so that simultaneous interpretation can continue to be offered to non-Welsh speakers. An interpreter joins the meeting and those who wish to have an English translation then choose to hear another audio stream.

During the reporting period, S4C received no complaints regarding S4C’s compliance with the operational standards.



ADNODDAU DYNOL
Fel y sianel deledu Gymraeg, mae S4C yn ymfalchïo ei bod yn cynnig y cyfle i weithio yn yr iaith ac mae ein prosesau yn cael eu gweinyddu i alluogi hyn. Rydym yn croesawu ceisiadau swydd gan siaradwyr Cymraeg rhugl, dysgwyr a’r rheiny sydd eisiau dysgu. Rydym yn buddsoddi mewn hyfforddiant Cymraeg ar bob lefel yn ôl y galw, ac yn cynnig dosbarthiadau rhad ac am ddim ar gyfer staff sydd eisiau dysgu Cymraeg neu loywi iaith. Rydym yn darparu hyfforddiant a chyfleoedd yn ystod oriau gwaith i’n cyflogeion, yn cynnwys penaethiaid a rheolwyr. Rydym wedi parhau i weithredu hyn yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae S4C yn hysbysebu a chyhoeddi swyddi lle mae’r Gymraeg yn hanfodol yn Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog. Pan nad yw’r Gymraeg yn hanfodol, pennir categori ar gyfer rhuglder wrth hysbysebu’r swydd a gwneid hyn yn ddwyieithog. Prin iawn ydy’r achosion pan nad yw’r Gymraeg yn hanfodol, ac rydym bob amser yn hysbysebu swyddi yn Gymraeg.

Caiff y taflenni isod oll eu cyhoeddi yn y Gymraeg neu yn ddwyieithog.

- ffurflenni cais am swyddi;
- gwybodaeth am ein proses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi, a
- swydd-ddisgrifiadau.

Ers symud ein pencadlys i Ganolfan S4C yr Egin, rydym wedi hysbysebu a recriwtio nifer helaeth o swyddi sydd wedi’u cartrefu yng Nghaerfyrddin gan gynnig ystod eang o gyfleoedd i weithio yn y Gymraeg. Ac mae swyddfeydd yn parhau i fod gan S4C yng Nghaerdydd ac yng Nghaernarfon hefyd.

GWEITHLU S4C
Dyma fanylion ynghylch canrannau staff oedd yn meddu’r Gymraeg yn S4C, a’r nifer sy’n derbyn cyrsiau Cymraeg o fewn cyfnod yr adroddiad:

(a) nifer y cyflogeion a weithiodd i S4C yn ystod y cyfnod dan sylw oedd yn meddu ar sgiliau yn y Gymraeg:

Cymraeg Rhugl: 103
Dysgwr: 8
Ddim yn siarad Cymraeg: 5

(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennym ni yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn:

102 – o’r rhain, defnyddiodd saith gyfleuster cyfieithu ar y pryd (Cymraeg – Saesneg.)

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd chwe chwrs hyfforddi yn Gymraeg. Ar gyfer dau o’r sesiynau cynigiwyd cyfieithu ar y pryd ar gyfer y rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg.

(c) Canran y staff fynychodd fersiwn Gymraeg o gwrs oedd yn cael ei gynnig hefyd yn Saesneg:

Dilynodd 93% o’r staff y cyrsiau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd chwe chwrs hyfforddi yn Gymraeg. Ar gyfer dau o’r sesiynau cynigiwyd cyfieithu ar y pryd ar gyfer y rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg. Defnyddiodd saith gyfleuster cyfieithu ar y pryd.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd dau gwrs (cymorth cyntaf) gan ddarparwr allanol. Nid oedd y cyrsiau hyn ar gael yn Gymraeg o fewn y cyfnod yr oedd angen yr hyfforddiant. Mynychodd 12 y cyrsiau hyn yn Saesneg yn unig.

Mae’n werth nodi bod nifer o feysydd ble mae prinder hyfforddwyr sy’n gallu cynnal cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

(ch) nifer y swyddi newydd a’r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym ni yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy’n gofyn:

- i. bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol: 18
- ii. bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i’r swydd: 0
- iii. bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol: 1
- iv: nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol: 0

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion am gydymffurfiaeth S4C gyda’r safonau gweithredu.

GORUCHWYLIO
Mae cynllun gweithredu Safonau’r Gymraeg ar gael ar fewnrwyd a gwefan S4C. Caiff holl egwyddorion y safonau eu cyfathrebu i staff, gan gynnwys aelodau newydd, ac mae adran benodol yn cynghori ar y safonau ar ein mewnrwyd. Mae gan bob cyfarwyddiaeth yn S4C gyfrifoldeb cyffredinol am weithredu Safonau’r Gymraeg yn eu cyfarwyddiaeth eu hunain sy’n berthnasol i’w gwaith gan gynnwys cadw cofnodion a monitro fel ein bod yn gallu adrodd yn flynyddol yn union â’r gofynion arnom. Mae’r Bwrdd Unedol yn cael eu diweddarau yn rheolaidd.

HUMAN RESOURCES
As the Welsh language television channel, S4C takes pride in offering the opportunity to work in the language and our processes are conducted to enable this. We welcome job applications from Welsh speakers, learners and those who want to learn. We invest in Welsh training at all levels according to demand and offer free classes for staff who want to learn Welsh or improve their language skills. We provide training and opportunities during working hours for our employees, including senior staff and managers. We have continued to implement this during the reporting period.

Where Welsh is essential for a role, S4C advertises and publishes these roles in Welsh only or bilingually. Where Welsh is not essential, a category is set to determine fluency when advertising the post and this would be done bilingually. There are very few cases where Welsh is not essential, and we always advertise posts in Welsh. The materials below are all published in Welsh or bilingually.

- job application forms;
- information about our interview process, or about any other methods of assessment when applying for jobs, and
- job descriptions.

Since moving our headquarters to Canolfan S4C yr Egin, we have advertised and recruited a large number of jobs that have been based in Carmarthen, offering a wide range of opportunities to work in Welsh. And S4C continue to operate offices in Cardiff and Caernarfon as well.

S4C’S WORKFORCE
Details of the percentages of S4C staff who could speak Welsh, and the number receiving Welsh courses within the report period are as follows:

(a) The number of employees who worked for S4C during the period in question who possessed Welsh language skills:

Fluent Welsh: 103
Learner: 8
Not a Welsh speaker: 5

(b) The number of staff members who attended training courses offered by us in Welsh during the year:

102 – of these, seven used simultaneous interpretation facilities (Welsh – English.)

During the year, six training courses were held in Welsh. For two of the sessions, simultaneous interpretation was offered to non-Welsh speakers.

(c) The percentage of staff who attended the Welsh version of a course which was also offered in English:

93% of staff followed the relevant training through Welsh.

During the year, six training courses were held in Welsh. For two of the sessions, simultaneous interpretation was offered to non-Welsh speakers. Seven members of staff used simultaneous interpretation facilities.

During the year two (first aid) courses were held by an external provider. These courses were not available in Welsh within the period in which the training was required. 12 attended these courses in English only.

It is worth noting that there are several areas where there is a shortage of trainers who can offer courses through the medium of Welsh.

(d) The number of new and vacant posts advertised by us during the year which have been categorised as specifying:

- i. that Welsh language skills were essential: 18
- ii. that it was required to learn Welsh language skills when appointed to the post: 0
- iii. that Welsh language skills were desirable: 1
- iv: that Welsh language skills were not necessary: 0

During the reporting period, no complaints were received regarding S4C’s compliance with the operational standards.

SUPERVISION
The Welsh Language Standards action plan is available on the intranet and the S4C website. All the principles of the standards are communicated to staff, including new members, and there is a specific section that offers advice on the standards on our intranet. Each directorate in S4C has a general responsibility for implementing the Welsh Language Standards that are relevant to their work in their own directorate, including keeping records and monitoring so that we are able to report annually in accordance with the requirements placed on us. The Unitary Board is given regular updates.



Cysylltu gydag S4C

Mae S4C wastad yn falch i glywed barn ein gwylwyr.

Os ydych yn dymuno cyflwyno eich barn am ein rhaglenni neu os ydych eisiau gwybodaeth bellach, fe fyddem yn falch i glywed gennych.

Fe allwch gysylltu ag S4C yng Nghaerfyrddin, yng Nghaerdydd neu Gaernarfon, dros y ffôn, drwy ebost, Twitter, Facebook neu drwy lythyr.

Gwefan
s4c.cymru

Ebost
s4c@s4c.cymru

Gwifren
0370 600 4141

Pencadlys
Canolfan S4C Yr Egin
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Swyddfa Caerdydd
S4C Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

Swyddfa Caernarfon
S4C Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

Mae croeso i chi gysylltu ag S4C yn y Gymraeg, ac os byddwch chi’n gwneud hynny byddwn yn ateb yn y Gymraeg ac ni fydd oedi oherwydd hynny.

Contact S4C

S4C is always pleased to hear our viewers’ opinions.

If you want to share your opinion about our programmes or if you want further information, we’d be happy to hear from you.

You can contact S4C in Cardiff or Caernarfon, by phone, email, Twitter, Facebook or by letter.

Website
s4c.cymru

Email
s4c@s4c.cymru

Gwifren
0370 600 4141

Headquarters
Canolfan S4C yr Egin
Carmarthen
SA31 3EQ

Cardiff office
S4C Parc Tŷ Glas
Llanishen
Cardiff
CF14 5DU

Caernarfon office
S4C Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

You are welcome to contact S4C in Welsh, and if you do so we will respond in Welsh and this will not lead to any delays.

